***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/10/2013.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, RHAN 4 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 24 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 2

# NEWIDIADAU RHEOLEIDDIEDIG

## **RHAN 4**

## YSGOLION ARBENNIG

18 Mae paragraffau 19 i 21 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion arbennig cymunedol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 2 para. 18 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I2** Atod. 2 para. 18 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

*Cynnydd yn nifer disgyblion*

19 (1) Ac eithrio pan fo ysgol wedi ei sefydlu mewn ysbyty, cynnydd yn nifer y disgyblion y mae'r ysgol yn gwneud darpariaeth ar eu cyfer, a fyddai o'i gymryd ynghyd â phob cynnydd blaenorol ar ôl y dyddiad priodol, yn cynyddu nifer y disgyblion gan o leiaf 10% neu gan y nifer perthnasol o'i gymharu â nifer y disgyblion ar y dyddiad priodol.

(2) Yn y paragraff hwn—

y "dyddiad priodol" ("*appropriate date*") yw'r diweddaraf o'r canlynol—

(a) 19 Ionawr 2012;

(b) y dyddiad pan dderbyniodd yr ysgol ddisgyblion gyntaf;

(c) dyddiad (neu ddyddiad diweddaraf) gweithredu cynigion i wneud newid i'r ysgol i gynyddu nifer y disgyblion y mae'r ysgol yn darparu ar eu cyfer ac y cyhoeddwyd y cynigion hynny o dan y canlynol—

(i) adran 48, 59, 68 neu 72, neu

(ii) adran 31 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 neu baragraff 5 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno; ac

"y nifer perthnasol" ("*relevant number*") mewn perthynas â nifer y disgyblion mewn ysgol yw—

(a) pan fo'r ysgol yn darparu llety byrddio yn unig, 5, a

(b) ym mhob achos arall, 20.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 2 para. 19 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I4** Atod. 2 para. 19 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

*Darpariaeth fyrddio*

20 Newid y ddarpariaeth ar gyfer llety byrddio fel bod y nifer o ddisgyblion y gwneir darpariaeth o'r fath ar eu cyfer yn cael ei gynyddu neu ei leihau gan 5 disgybl neu ragor.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/10/2013.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, RHAN 4 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 24 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. 2 para. 20 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I6** Atod. 2 para. 20 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

*Darpariaeth anghenion addysgol arbennig*

21 Newid yn y math o anghenion addysgol arbennig y trefnwyd yr ysgol i wneud darpariaeth ar ei gyfer.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Atod. 2 para. 21 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I8** Atod. 2 para. 21 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/10/2013.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, RHAN 4 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 24 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.